

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP

Hysbysir gyda hyn, yn unol ag Adrannau 41 a 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) a'r Côt Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor), ar ôl ymgynghori â'r personau gofynnol, yn cynnig y canlynol:

1. dod ag Ysgol Fabanod a Meithrin Copperworks, Stryd Nevill, Llanelli, SA15 2RS (a gynhelir gan y Cyngor ar hyn o bryd) i ben ar 31 Awst 2016;
2. dod ag Ysgol Gynradd Maes-llyn, Heol Maes-llyn, Llanelli, SA15 2TS (a gynhelir gan y Cyngor ar hyn o bryd) i ben ar 31 Awst 2016
3. sefydlu ysgol Gynradd Gymunedol newydd, Categori 2, â dwy ffrwd (yr "Ysgol Newydd"), sydd i'w chynnal gan y Cyngor o 1 Medi 2016 yn adeiladau presennol Ysgolion Babanod a Meithrin Copperworks ac Ysgol Gynradd Maes-llyn, ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed.
4. Y bwriad yw lleoli'r "Ysgol Newydd" ar safle ac mewn adeiladau newydd ar hen safle Draka, Heol Copperworks, Llanelli. Rhagwelir y bydd y gwaith adeiladu angenrheidiol wedi'i gwblhau erbyn 31ain Mawrth 2018, ac y bydd yr ysgol a'r adeiladau newydd yn darparu ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed.

Bu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnal cyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael yn www.sirgar.llyw.cymru.

O 1 Medi 2016 ymlaen, yn amodol ar ddewisiadau a fynegir gan rieni, bwriedir i'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr Ysgol Fabanod a Meithrin Copperworks a'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr Ysgol Gynradd Maes-llyn - a'r rhai a fyddai, oni bai am y cynnig hwn, wedi disgwyl mynychu'r ysgolion hynny - gael eu haddysg yn yr "Ysgol Newydd". Dalgylchoedd presennol Ysgol Fabanod a Meithrin Copperworks ac Ysgol Gynradd Maes-llyn fydd dalgylch yr "Ysgol Newydd".

Ni fwriedir i'r trefniadau derbyn i'r "Ysgol Newydd" ddarparu ar gyfer dewis disgyblion ar sail dawn na gallu (bandio disgyblion).

Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yr Awdurdod Derbyn ar gyfer yr "Ysgol Newydd".

Tra bydd yr "Ysgol Newydd" yn defnyddio adeiladau presennol Ysgol Fabanod a Meithrin Copperworks a safle Ysgol Gynradd Maes-llyn, 60 fydd nifer y disgyblion a dderbynnir i'r "Ysgol Newydd" pan fyddant yn 4/5 oed, ar sail amser llawn yn y flwyddyn ysgol gyntaf pryd y gweithredir y cynigion. Capasiti o 420 fydd yn yr ysgol newydd, a bydd yn darparu 60 o lefydd meithrin cyfwerth ag amser llawn.

Ar ôl adleoli'r "Ysgol Newydd" i hen safle Draka, Heol Copperworks, Llanelli, nifer derbyn y disgyblion y rhoddir lle amser llawn iddynt yn yr ysgol yn 4/5 oed fydd 60. Capasiti o 420 fydd yn yr ysgol newydd, a bydd yn darparu 60 o lefydd meithrin cyfwerth ag amser llawn.

Categori laith yr ysgol newydd arfaethedig, fel y'i diffiniwyd yn nogfen wybodaeth rhif: 023/2007 Llywodraeth Cymru, "Diffinio ysgolion yn ôl eu darpariaeth Gymraeg", fydd 'Ffrwd Ddeuol - Categori 2'. Mynediad at addysg gyfrwng Gymraeg.

Darperir cludiant i'r "Ysgol Newydd" yn unol â pholisi Cyngor Sir Caerfyrddin ynghylch cludiant o'r cartref i'r ysgol.

Bydd y trefniadau ar gyfer trosglwyddo i Ysgolion Uwchradd yn parhau heb eu newid.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion hyn o fewn cyfnod o 28 diwrnod ar ôl dyddiad eu cyhoeddi, sef erbyn 30 Tachwedd 2015. Dylid anfon gwrthwynebiadau at Mr Robert Sully, y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB neu drwy e-bost i DECMEP@sirgar.gov.uk.

Llofnod: Mr Robert Sully
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
Ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin

Dyddiedig: 3ydd o Tachwedd 2015

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r Nodyn Esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad – yn hytrach fe'i cynigir er mwyn cynyddu eglurder)

1. Mae'r Awdurdod yn bwriadu ad-drefnu addysg gynradd yn yr ardal a chreu un ysgol gynradd gymunedol newydd, ynghyd â darpariaeth feithrin newydd, i gymryd lle'r ddwy ysgol bresennol. Lleolir yr ysgol newydd ar hen safle Draka yn Seaside, Llanelli.

Gan fod angen codi adeilad yr "Ysgol Newydd", bydd angen dal ati i ddefnyddio adeiladau presennol Ysgol Fabanod a Meithrin Copperworks ac Ysgol Gynradd Maes-llyn hyd nes y bydd adeiladau'r ysgol newydd wedi eu cwblhau, pryd y symudir y disgyblion i'r adeiladau newydd ar y safle newydd. Mae'r trefniadau arfaethedig yn cael eu crynhoi isod:-

- 31 Awst 2016 – Bydd yr ysgolion presennol, sef Ysgol Fabanod a Meithrin Copperworks ac Ysgol Gynradd Maes-llyn, yn peidio â bodoli.
- 1 Medi 2016 – Bydd ysgol newydd yn agor ar y safle, ac yn defnyddio adeiladau presennol Ysgol Fabanod a Meithrin Copperworks ac Ysgol Gynradd Maes-llyn. Yn ystod y cyfnod hwn, mater i'r Corff Llywodraethu fydd penderfynu ar drefniadaeth yr ysgol, ac ar ba un o'r ddau safle y cynhelir y dosbarthiadau, gan bennu ble bydd y disgyblion yn derbyn eu haddysg. Nhw hefyd fydd yn gyfrifol am ddatblygu Ffrwd Gymraeg newydd yn yr ysgol ar gyfer y disgyblion a dderbynnir ym mis Medi 2016. Ni fydd y ddarpariaeth yn newid yn achos y disgyblion sydd eisoes yn mynychu'r ysgol.
- Mis Ebrill 2018 – Bydd yr holl ddisgyblion yn symud i adeilad newydd yr "Ysgol Newydd" ar hen safle Draka, Heol Copperworks, Llanelli.

2. Mae nifer derbyn yr "Ysgol Newydd", sef 60 o ddisgyblion a'r 60 disgybl Cyfwerth ag Amser Llawn (CALI) ar gyfer y ddarpariaeth feithrin yn rhan o'r trefniadau pontio. Y bwriad yw sicrhau bod y trefniadau derbyn ar gyfer disgyblion yn y cyfnod hwnnw'n unol â strwythur trefniadaeth a rheolaeth yr ysgol newydd pan fydd yn symud i'w safle parhaol ym mis Ebrill 2018.

3. Mae'r polisi cyfredol ynghylch cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cadarnhau y bydd yr Awdurdod yn darparu cymorth cludiant yn achos disgyblion sy'n bodloni pob un o'r meini prawf canlynol: -
(a) maent wedi cyrraedd oed ysgol gorfodol;
(b) maent yn mynychu'r ysgol agosaf neu'r ysgol a ddynodwyd gan yr Awdurdod Lleol; ac
(c) maent yn byw ymhellach na'r pellter cerdded statudol o'r ysgol (2 filltir yn achos plant dan 8 oed a 3 milltir yn achos plant sy'n 8 oed neu'n hŷn).

CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL

County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

Notice is hereby given in accordance with Section 41 and 43 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (the Act) and the School Organisation Code that Carmarthenshire County Council (the Council) having consulted such persons as required, propose the following:

1. to discontinue Copperworks Infant and Nursery School, Nevill Street, Llanelli, SA15 2RS (currently maintained by the Council) on 31 August 2016;
2. to discontinue Lakefield Primary School, Lakefield Road, Llanelli, SA15 2TS (currently maintained by the Council) on 31 August 2016, and
3. to establish a new dual-stream Category 2, Community Primary school (the "New School") to be maintained by the Council from 1 September 2016 in the existing buildings of the current Copperworks Infant and Nursery and Lakefield Primary Schools for boys and girls aged 3-11.
4. It is intended that the "New School" be re-located and accommodated in new buildings on the former Draka site in Copperworks Road, Llanelli. It is anticipated that the necessary construction works will be completed by 31st March 2018 and that the new school and buildings will cater for boys and girls aged 3-11.

The Council undertook a period of consultation before deciding to publish this proposal. A consultation report containing a summary of the issues raised by consultees, the proposers responses and the views of Estyn is available on www.carmarthenshire.gov.wales.

From 1 September 2016, subject to any expression of parental preference, it is proposed that those pupils registered at Copperworks Infant and Nursery School and at Lakefield Primary School and who, but for this proposal, would have expected to attend those schools will be educated at the "New School". The existing catchment areas of Copperworks Infant and Nursery School and at Lakefield Primary School will become the catchment area of the "New School".

It is not intended that admission arrangements to the "New School" will make any provision for selection of pupils by aptitude or by ability (pupil banding).

Carmarthenshire County Council will be the admission authority for the "New School".

Whilst the "New School" is situated in the existing buildings of the current Copperworks Infant and Nursery School and Lakefield Primary School site the admission number (AN) of pupils to be admitted at age of 4/5 on a full time basis in the first school year in which proposals are implemented is 60. The new school's capacity will be 420 and provide 60 full time equivalent nursery places.

Following the re-location of the "New School" to the site of the former Draka site, Copperworks Road, Llanelli, the admission number (AN) of pupils to be admitted at age of 4/5 on a full time basis will be 60. The capacity of the "New School" will be 420 and provide 60 full time equivalent nursery places.

The language category of the proposed new school, as defined by "Defining schools according to Welsh medium provision", Welsh Government Information document No: 023/2007 will be, 'Dual Stream- Category 2'. Access to welsh medium education.

Transport to the "New School" will be provided in accordance with Carmarthenshire County Council's home to school transport policy.

Transfer to Secondary School will remain as per current arrangements.

Within a period of 28 days after the date of publication of these proposals, that is to say by 30 November 2015, any person may object to these proposals. Objections should be sent to Mr Robert Sully, Director of Education and Children's Services, Carmarthenshire County Council, Building 2, St David's Park, Job's Well Road, Carmarthen, SA31 3HB or e-mail to DECMEP@carmarthenshire.gov.uk.

Signed: Mr Robert Sully
Director of Education and Children's Services
For Carmarthenshire County Council

Dated: 3rd of November 2015

EXPLANATORY NOTE

(This Explanatory Note does not form part of the Notice but is offered by way of clarification)

1. It is the Authority's intention to re-organise primary education in the South Llanelli area and create one new community primary school, together with nursery provision, to replace the two existing schools. The new school is to be located on the former Draka site at Seaside, Llanelli.

As there is a need to construct the "New School" building, there will be a need to retain the use of the current Copperworks Infant and Nursery School and at Lakefield Primary School buildings until such time the new school building is complete when the pupils will relocate to the newly built premises on the new site. The proposed arrangements are summarised below:-

- 31 August 2016 – The current Copperworks Infant and Nursery School and at Lakefield Primary School will cease to exist.
- 1 September 2016 – A new school will open on the site, and make use of the buildings, of the existing Copper works Infant and Nursery School and Lakefield Primary schools. During this period it will for the Governing Body to decide how the school is organised and at which of the two sites classes, and hence pupils, will be educated. They will also be responsible for the development of a new Welsh Stream at the school for the September 2016 pupil intake. Provision will not change for those pupils already attending the school.
- In April 2018 – All pupils will re-locate to the newly built "New School" premises on the former Draka site, Copperworks Road, Llanelli.

2. The admission number (AN) of 60 pupils for the "New School" and 60 Full Time Equivalent (FTE) pupils for nursery provision form part of the transitional arrangements. They are intended to ensure that the admission arrangements for pupils for that period are in line with the organisation and management structure for the new school when it relocates to its permanent site in April 2018.

3. Current home to school transport policy confirms that assistance with transport will be provided by the Authority for pupils who meet each of the following criteria: -
(a) are of compulsory school age;
(b) attend the nearest or the school designated by the Local Authority; and
(c) who reside over the statutory walking distance from the school (2 miles in the case of children up to 8 years of age and 3 miles for those aged 8 and over).